



**TYSTYSGRIF RADDEDIG mewn Cadarnhau
Ymarfer Gwaith Cymdeithasol
LEFEL 6 - 60 credyd
BMPPF6044C**

**CANLLAWIAU AR GYFER PORTFFOLIO'R
DYSGWR
(PORTH AGORED a PHRIFYSGOL CYMRU
Y DRINDOD DEWI SANT)**

**ACADEMI CYMRU AR GYFER ARFER PROFFESIYNOL
AC YMCHWIL CYMHWYSOL**

Canllawiau ar gyfer y Portffolio

Mae'r portffolio yn cynnwys 5 dogfen unigol a byddwch yn dod o hyd i'r templedi sydd wedi'u lleoli ar eich tudalen Moodle.

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus. Maen nhw'n darparu gwybodaeth hanfodol. Mae'r dogfennau y byddwch chi'n eu defnyddio wrth ddatblygu eich portffolio ar y tudalennau canlynol.

Beth yw diben y portffolio?

Pwrpas y portffolio hwn yw galluogi dysgwyr i ddangos a darparu tystiolaeth o'r modd maen nhw'n bodloni'r canlyniadau dysgu a nodwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y rhaglen Gadarnhau, yn cynnwys:

- dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau;
- cydweithio â phobl sydd angen gofal a chymorth, gofalywyr a gweithwyr proffesiynol eraill
- ymyrryd a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth.

Cytundeb dysgu rhwng y dysgwr a'r cyflogwr

Ar ddiwedd y Portffolio (gweler templed 'BMPF6044_Rhestr gyfeiriodi ayn'), fe gewch gopi gwag o gytundeb dysgu y mae angen i chi ei ddarllen, ei drafod a'i gytuno gyda'ch mentor/rheolwr llinell. Wedi i'r cytundeb gael ei lofnodi, rhwch ef yn yr adran briodol o'r portffolio.

Beth am gyflwyniad y Portffolio?

Mae'r rhaid i'r deunydd y byddwch chi'n ei ysgrifennu i'w gynnwys yn y portffolio gael ei deipio. Gellir cael gwybodaeth am hyn yn y Llawlyfr Rhaglen. **Mae'r portffolio yn cynnwys 5 dogfen unigol a byddwch yn dod o hyd i'r templedi sydd wedi'u lleoli ar eich tudalen Moodle.** Rhaid i bob un o'r 5 templedi gael ei gyflwyno'n electronig i Turnitin gan ddefnyddio'r linc priodol. Rhaid i bob darn wedi'u cwblhau pan gânt eu cyflwyno.

Sut mae cyflwyno'ch Portffolio

Cyflwynir bob un o'r 5 adran o'r portffolio'n electronig trwy anfon dogfen Word **yn unig** drwy system Moodle y Brifysgol (ni fydd Moodle yn derbyn PDFs). Rhaid cyflwyno **ail gopi** fel dogfen PDF sy'n cynnwys yr holl lofnodion gofynnol i Gydlynnydd/Rheolwr Hyfforddi'r Awdurdod Lleol. Gweler y Cwestiwn Cyffredin '*Sut mae cyflwyno'ch portffolio*' ar Moodle am ragor o fanylion.

Sut mae'r Portffolio'n cael ei asesu?

Yn ystod y rhaglen, darperir cyngor a chymorth am ddatblygiad eich portffolio fel rhan o bedwar gweithdy Cadarnhau gorfodol, a gan eich mentor. Rhoddir arweiniad ar holl agweddau'r gwaith yr ydych yn ei wneud i ddatblygu'r portffolio fel rhan o'r gweithdai hyn. Lle bo modd bydd y rhaglen yn ceisio sicrhau na fydd staff sydd wedi darparu hyfforddiant ar eich cyfer yn ystod y gweithdai Cadarnhau yn gysylltiedig â marcio'ch portffolio ar ôl ei gyflwyno. Bydd y Portffolios

yn cael eu marcio gan staff â chymwysterau priodol sydd fel arfer o'r tu allan i'r sefydliad sy'n eich cyflogi.

Mae cyflwyno adroddiad Mentor ynghyd â gwiriad Rheolwr Llinell yn ofyniad gorfodol ar gyfer y cyflwyniad. Bydd methu â chynnwys adroddiad Mentor wedi'i lofnodi ynghyd â gwiriad Rheolwr Llinell yn arwain at fethu'r rhaglen. Bydd adroddiad y Mentor ynghyd â gwiriad y Rheolwr Llinell yn darparu tystiolaeth o Arfer Proffesiynol a goruchwyliaeth ac arsylwi proffesiynol sydd wedi'u cyflawni wrth ddilyn llwybr y Dystysgrif Raddedig mewn Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, sydd yn cyfateb i 7,000 o eiriau.

Fel arfer, rhoddir gwybod am ddyddiadau cyflwyno'r portffolios yn ystod y cwrs cynefino, mewn gweithdai cadarnhau a thrwy eu rhoi ar Moodle.

Cyfrinachedd

Mae'n bwysig nad oes modd adnabod unrhyw unigolyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar sail y wybodaeth sydd yn y portffolio. Rhaid i chi:

- gydymffurfio â'r canllawiau ar gyfrinachedd yn y Llawlyfr Rhaglen;
- peidio ag enwi'ch Awdurdod Lleol/cyflogwr na chyfeirio at unrhyw nodwedd ddaearyddol neu ffisegol neu nodwedd o fath arall a fydd yn rhoi modd i'w adnabod. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau yn y llyfryddiaeth at bolisiâu e.e. defnyddiwch y ffurf 'polisi awdurdod xxx';
- peidio ag enwi unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau e.e. pobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalmwr. Yn hytrach, rhaid defnyddio rhifau, e.e. 1, 2, 3 ac ati ac **nid llythrennau**;
- peidio ag ysgrifennu gwybodaeth sy'n rhoi modd i adnabod unigolion sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalmwr yn anuniongyrchol drwy'r disgrifiad yr ydych yn ei roi. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at enwau, cydweithwyr, lleoedd (gan gynnwys ysbysai, ysgolion, trefi, pentrefi, strydoedd), digwyddiadau penodol a allai roi modd i adnabod yr unigolion oherwydd cyhoeddusrwydd blaenorol, gweithwyr proffesiynol eraill neu unrhyw wybodaeth bersonol arall, gan gynnwys cyflyrau meddygol neu gyflyrau eraill;
- bod yn bersonol gyfrifol am gydymffurfio â'r rheolau ar gyfrinachedd. Er y rhoddir canllawiau ynglŷn â'ch portffolio mewn gweithdai cadarnhau, cyfrifoldeb y dysgwr yw sicrhau bod y portffolio'n cadw at y gofynion o ran cyfrinachedd sydd wedi'u nodi uchod ac yn y llawlyfr.

Cofiwch mai CHI sy'n gyfrifol am y Portffolio. Rhaid i chi beidio â dibynnu ar neb arall i sylwi ar unrhyw beth sy'n torri'r rheolau o ran cyfrinachedd oherwydd eich gwaith chi yw hwn a rhaid i chi dderbyn cyfrifoldeb llwyr dros gyfrinachedd. Mae'n bwysig iawn cwrdd â'r holl ofynion o ran cyfrinachedd a gellir rhoi cosb am dorri'r rheolau cyfrinachedd, gan gynnwys tynnu marciau neu ddyfarnu marc methu. Gweler y llawlyfr am fanylion.

Dyslecsia ac amgylchiadau arbennig eraill

Os oes gennych unrhyw anghenion cymorth dysgu ychwanegol y teimlwch y gallent effeithio ar eich gallu i ddelio ag unrhyw ran o'r rhaglen, cysylltwch â'ch adran hyfforddi ar unwaith i drafod unrhyw gymorth ychwanegol posibl sydd ei angen. Mae gan y Brifysgol Uned Gwasanaethau Myfyrwyr a allai eich helpu, **ond cyfrifoldeb y dysgwr yn unigol yw cysylltu â nhw.**

Crynodeb

Tystysgrif Raddedig mewn Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol – Portffolio'r Dysgwr

Canllawiau:

- *rhaid i'ch portffolio gynnwys pob un o'r eitemau isod ;*
- *rhaid i chi ddefnyddio'r templed priodol i osod eich testun ym mhob adran;*
- *gwnewch yn siŵr fod y dudalen Llofnodion wedi'i chwblhau'n llawn cyn ei chyflwyno yn y fersiwn PDF a gyflwynir i gydlynnydd/rheolwr hyfforddi eich awdurdod lleol.*

Cynnwys:

Pwnc	Rhif y dasg	
Adolygu Datblygiad	1 (a)	BMPF6044_Tasg 1
Arsylwi ac adborth	2	BMPF6044_Tasg 2
Diogelu a gweithio mewn sefyllfaoedd cymhleth - Astudiaeth Achos	3	BMPF6044_Tasg 3
Diogelu mewn maes nad yw'n brif faes gwaith i chi.	4	BMPF6044_Tasg 4
Adolygu Datblygiad	1 (b)	BMPF6044_Tasg 1
Rhestr gyfeiriadau		BMPF6044_Rhestr gyfeiriodi ayb
Manylion y Gweithdai a fynychwyd Adroddiad y Mentor		BMPF6044_Rhestr gyfeiriodi ayb
Manylion y Dysgwr		BMPF6044_Rhestr gyfeiriodi ayb
Llofnodion a gwiriad y Rheolwr Llinell		BMPF6044_Rhestr gyfeiriodi ayb
Cytundeb Dysgu rhwng y Dysgwr a'r Cyflogwr		BMPF6044_Rhestr gyfeiriodi ayb

